

Dyfarniad Rheoleiddio

Mehefin 2026

ateb Group Limited - L108

Dyfarniad

Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau	
Gwyrdd	Mae'r landlord yn bodloni ein gofynion
Hyfywedd Ariannol	
Melyn	Mae'r landlord yn bodloni ein gofynion ac mae angen iddo barhau i reoli risgiau perthnasol er mwyn cynnal y sefyllfa hon

Mae newid i'r sgôr hyfywedd ariannol (Gwyrdd i Felyn) yn dangos bod ein gofynion wedi'u bodloni, ond mae proffil ariannol y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) yn golygu y gallai fod yn fwy heriol lliniaru effaith risg, neu gyfuniad o risgiau, pe baent yn digwydd.

Y Broses Asesu

Cynhaliwyd yr asesiad o ateb Group yn unol â'r [Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru](#) 2025. Yn ogystal â'r cwrpas safonol (sef llywodraethu, darparu gwasanaethau a hyfywedd ariannol), yn dilyn adolygu hunanwerthusiad, cynllun gwella cydymffurfiaeth (CIP) a dogfennau cysylltiedig yr RSL, adolygwyd boddhad tenantiaid, y fframwaith rheoli asedau a'r cynllun busnes yn fwy manwl.

Yn ogystal ag adolygu dogfennau a ffurflenni rheoleiddiol, cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd gyda'r Prif Swyddog Gweithredol a Chadeirydd y Bwrdd, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid. Arsylwyd ar gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Sicrwydd, ac aeth y tîm rheoleiddio i gyfarfod Pwyllgor Cwsmeriaid. Gwnaethom hefyd ystyried gwybodaeth o gyswllt rheoleiddiol arferol â'r RSL.

Y Gwelliannau Sydd eu Hangen

Dangosodd yr asesiad fod yn rhaid gwella cydymffurfiaeth â'r safonau rheoleiddio a nodir isod neu fod angen rheoli risgiau sylweddol yn dynn, er mwyn parhau i fodloni ein gofynion:

Safon Reoleiddio	Gwelliant sydd ei Angen neu Risg Sylweddol i'w Reoli'n Dynn
RS7: Mae'r cynllunio a'r rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol	
b) Mae'n ariannol hyfyw yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy, ac mae'n sicrhau bod digon o gyllid a hylifedd i gefnogi hyn.	Mae'r Gymdeithas wedi cynllunio rhaglen sylweddol o waith datgarboneiddio dros y cyfnod nesaf o 5 mlynedd, sy'n effeithio'n sylweddol ar ei metrigau ariannol.

Hunanwerthuso - Gofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025

Nid oeddem yn gallu dod i'r casgliad bod yr hunanwerthusiad yn bodloni'r holl ofynion a nodir yn Fframwaith Rheoleiddio 2025 yn llawn. Rhaid mynd i'r afael â'r gofyniad a nodir isod yn llawn yn ei hunanwerthusiad nesaf:

Gofyniad 7. Cynllun Gwella Cydymffurfiaeth sy'n nodi sut yr eir i'r afael ag unrhyw feysydd nad ydynt yn cydymffurfio (neu sy'n cydymffurfio'n rhannol) â'r safonau. Rhaid i'r cynllun gynnwys amserlen a nodi uwch-berson cyfrifol.

Bydd ateb Group yn cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle gallwch weld rhagor o wybodaeth.

RSL: Proffil

Nifer yr Unedau	3,257
Trosiant Blynyddol	29,762k
Cymhareb Gerio	24%
Sicrwydd Llog	276%
Math o RSL	Traddodiadol
Lleoliad	Gorllewin Cymru

Mae'r ffigurau uchod fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025, dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.

Bwriad dyfarniadau rheoleiddio yw rhoi syniad i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, eu tenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda y maent yn perfformio, ar adeg benodol, mewn perthynas â'r safonau rheoleiddio a osodwyd gan Weinidogion Cymru ar y canlynol:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Hyfywedd Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar ddyfarniadau at unrhyw ddiben arall. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gyfrifol am gyflawnder a chywirdeb yr wybodaeth a roddir i'r Rheoleiddiwr yn eu hunanwerthusiad a'u tystiolaeth ategol.

Y Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhydycar
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@llyw.cymru

ISBN digidol 978-1-83715-923-9
Hawlfraint y Goron 2026